OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 2705

# Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012

## RHAN 9

Gorfodi

**Gweithredu a gorfodi**

**20.**—(1) Rhaid i bob awdurdod bwyd yn ei ardal a phob awdurdod iechyd porthladd yn ei ranbarth weithredu a gorfodi—

(a) Rheoliad 1935/2004, Rheoliad 1895/2005, Rheoliad 450/2009 a Rheoliad 10/2011; a

(b) ac eithrio mewn perthynas â'r darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (3), y Rheoliadau hyn.

**[**[F1](2) Caiff yr Asiantaeth Safonau Bwyd hefyd weithredu a gorfodi darpariaethau—

(a) Erthyglau 16(1) a 17(2) o Reoliad 1935/2004;

(b) Erthygl 13 o Reoliad 450/2009; ac

(c) Erthygl 16(1) o Reoliad 10/2011.**]**

(3) Rhaid i bob awdurdod bwyd yn ei ardal weithredu a gorfodi darpariaethau Rheoliad 2023/2006 a bennwyd yn rheoliad 5 a'r Rheoliadau hyn.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Rhl. 20(2) wedi ei amnewid (14.9.2017) gan Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2017 (O.S. 2017/832), rhlau. 1(3), **11**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 20 mewn grym ar 20.11.2012, gweler **rhl. 1**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012, Adran 20.